Senedd Cymru
**Recriwtio**

# Canllaw cyflym ar Wneud Cais

## Sut i lenwi ffurflen gais wrth ymgeisio am swydd gyda ni.

01 Gorffennaf 2026

**Mae ysgrifennu ffurflen gais yn gyfle i chi arddangos eich profiad a'ch sgiliau, ond weithiau gall fod yn anodd eu mynegi ar bapur. Isod, rydym wedi rhestru ychydig o awgrymiadau a allai fod o gymorth.**

Darllenwch y disgrifiad swydd yn ofalus. Edrychwch yn ofalus ar y meini prawf penodol i'r swydd, a meddyliwch am enghreifftiau lle rydych chi wedi defnyddio'r sgiliau hyn o'r blaen.

Ceisiwch osgoi cyffredinoli, a defnyddio honiadau a damcaniaethau. Er enghraifft:

> Rwyf bob amser yn gwrtais â chwsmeriaid ...
>
> Mae'n bwysig ymdrin â chwynion yn brydlon ...
>
> Byddwn yn ymdrin â'r gwyn i ddechrau drwy...

Defnyddiwch enghreifftiau penodol sydd wedi digwydd i chi, a'ch rôl chi ar y pryd.

Er mwyn cynorthwyo o ran strwythur eich atebion, rydym yn eich annog i ddefnyddio'r fformat STAR wrth gwblhau eich cais. Yn ogystal â'ch helpu i ddangos tystiolaeth o'ch profiad a'ch sgiliau, bydd hwn hefyd yn helpu'r panel i farcio eich atebion.

S. - **Sefyllfa**; Nodwch y sefyllfa/tasg/problem/amgylchiadau penodol yr oeddech yn eu hwynebu.

T. - **Tasg**; Disgrifiwch beth oedd yn rhaid i chi ei wneud ar yr achlysur penodol hwn.

A. - **Action**/ Cam Gweithredu; Disgrifiwch yr hyn a wnaethoch i gyflawni'r dasg.

R. - **Result** /Canlyniad; Disgrifiwch beth oedd y canlyniad ar ddiwedd y dydd.

**Mae enghraifft isod o sut i gyflwyno eich tystiolaeth.**

S. Sefyllfa – Yn fy rôl flaenorol fel cynorthwyydd siop, roedd rheolwr y siop am ddenu rhagor o gwsmeriaid i'r siop bob dydd.

T. Tasg – Roedd yn rhaid i mi ddod o hyd i ffordd o ddenu rhagor o bobl i'r siop a gwella ein ffigurau gwerthiant.

A. Action/ Cam Gweithredu – Trefnais gyfarfod gydag aelodau eraill y tîm er mwyn meddwl am syniadau creadigol a dyluniais arddangosfa ddeniadol ar gyfer ffenestr y siop i ddenu cwsmeriaid newydd. Gwnes i hefyd sicrhau bod cynorthwyydd bob amser yn agos at ddrws y siop i groesawu cwsmeriaid i mewn i'r siop.

R. Result /Canlyniad – Dros gyfnod o dri mis, roedd cynnydd o 25 y cant yn nifer y cwsmeriaid a ddaeth i mewn i'r siop a chynnydd yn y ffigurau gwerthiant hefyd. Cefais gymeradwyaeth gan yr uwch-reolwyr a gwnes i barhau i ddylunio arddangosfeydd ar gyfer ffenestr y siop yn y dyfodol.